Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

# Gylch Chwarae Sychdyn

**Ysgol Gynradd Sirol Sychdyn**
**Vownog Road**
**Sychdyn**
**Sir y Fflint**
**CH7 6ED**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Chwarae Sychdyn

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Chwarae Sychdyn |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Cylch Chwarae Sychdyn |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Jane Edwards |
| Person â gofal | Jessica Evans |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Ystod oedran y plant | 2 ¼ i 4 blwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 17 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 8 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun, dydd Mawrth, dydd Mercher, dydd Iau, dydd Gwener, 9:00am i 3:00pm |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad yn gweithredu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Ddim yn berthnasol |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mai 2015 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 21/06/2023 |
| Nid oes unrhyw blant y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt neu sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Nid oes unrhyw blant o aelwydydd Cymraeg eu hiaith. | |

# Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Rhagorol** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Cynyddu ymglymiad y pwyllgor rheoli i gefnogi a monitro dysgu ac addysgu

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ar ei waith yn gysylltiedig ag annibyniaeth plant, i’w lledaenu ar eu gwefannau.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Rhagorol**

Mae bron pob un o’r plant yn datblygu medrau annibyniaeth ymhell uwchlaw disgwyliadau. Er enghraifft, maent yn gollwng bagiau a bocsys bwyd pan fyddant yn cyrraedd ac yn gwisgo’u ffedogau ar gyfer peintio a’u welintons i fynd y tu allan heb gymorth. Mae plant yn edrych ar lyfrau y maent wedi’u creu â ffotograffau o’u cartrefi a’u teuluoedd gan bwyntio at leoedd a phwy yw’r gwahanol bobl yn annibynnol. Maent yn penderfynu pa fyrbryd i’w gael yn ddiweddarach ac yn dod o hyd i’w blwch gyda’u henw arno eu hunain. Mae iaith y plant ieuengaf hyd yn oed yn datblygu’n hynod effeithiol, a gall plant adrodd eu henw gan sillafu fesul llythyren. Maent yn ymuno â chaneuon ac yn dangos eu bod yn hapus trwy gynnal sioe yn ddigymell yn annibynnol. Maent yn golchi eu dwylo cyn bwyta ac wrth ddod i mewn o’r tu allan heb gymorth. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud hyn heb gael eu hatgoffa gan oedolyn. Mae plant yn ymweld â’r ardd natur lle mae’r ieir yn byw, ac yn asesu risg yn annibynnol o ran pryd mae’n ddiogel rhoi mwythau iddynt.

Mae plant ifanc yn mwynhau gwneud penderfyniadau sy’n cynnwys archwilio’u hamgylchedd a’r adnoddau sydd ar gael. Er enghraifft, maent yn dangos pan fyddant eisiau chwarae’r tu allan ar ôl gorffen yr hyn yr oeddent yn ei wneud y tu mewn, ac mae ymarferwyr yn parchu eu dewisiadau ac yn gwrando ar eu syniadau.

Mae bron pob un o’r plant, gan gynnwys y rhai ieuengaf, yn cynefino’n dda ac yn teimlo’n ddiogel. Maent yn chwarae ochr yn ochr â’u ffrindiau yn hyderus. Mae pob un ohonynt yn mwynhau chwarae yn yr awyr agored ac yn cynllunio’r hyn y maent yn

mynd i'w wneud. Er enghraifft, maent yn chwarae'n frwdfrydig yn y tywod wrth geisio gorchuddio Lizzie, y fadfall. Mae'r plant ieuengaf yn gallu esbonio pam maent yn gwneud hyn ac yn gofyn i ymwelwyr a ydyn nhw'n gallu gweld ei chynffon o hyd. Mae plant mor ifanc â dwy a hanner yn siarad yn hyderus am eu diddordebau, ac yn dangos eu medrau, fel defnyddio'r tegan â rheolydd o bell â medrusrwydd. Mae'n glir gweld eu synnwyr o gyflawniad yn y ffordd y maent yn ymateb pan fyddant yn ei symud yn llwyddiannus.

Mae bron pob un o'r plant yn rhyngweithio â'i gilydd ac ymarferwyr yn eithriadol o dda. Maent yn tynnu lluniau o'u ffrindiau gan ofyn iddynt ddweud naill ai 'selsig' neu 'caws' i'w hannog i wenu. Mae'r plant ieuengaf yn cydweithredu'n dda â'i gilydd. Er enghraifft, maent yn rhannu adnoddau pan fyddant yn creu siapiau yn y tywod. Maent yn eithriadol o garedig a meddylgar tuag at ei gilydd. Er enghraifft, maent yn fodlon newid lleoedd heb gel eu sbarduno fel bod dau ffrind yn gallu eistedd gyda'i gilydd wrth y bwrdd. Pan mae sŵn y tu allan yn tarfu ar ffrind, maent yn dweud wrth aelod o staff yn bwyllog ac yn gofyn am gymorth ar ran eu ffrind. Mae'r rhan fwyaf o blant yn chwilfrydig am yr hyn mae eu ffrindiau'n ei wneud, ac mae hyd yn oed y rhai ieuengaf yn gwneud sylwadau adeiladol. Maent yn ymholgar ac yn gofyn cwestiynau amser cinio, er enghraifft beth sy'n gwneud selsig mor sbeislyd?

Mae bron pob un o'r plant yn egnïol ac yn awyddus i ddysgu trwy chwarae. Maent yn ystyriol iawn, ac mae eu mwynhad yn amlwg wrth gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau. Er enghraifft, pan fyddant yn cymryd arnynt eu bod yn teithio mewn bws, maent yn gweithio gyda'i gilydd i symud y cratiau o amgylch pawb nes bod gan bawb sedd ac yn hapus. Maent yn penderfynu pa siâp fydd y bws ac yn gofyn i'w ffrindiau a yw'n iawn iddyn nhw. Maent yn mwynhau cyfleoedd i ddatblygu cryfder corfforol trwy gario dŵr gyda'i gilydd i ble mae ei angen yn yr ardd.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad, yn enwedig wrth ddatblygu eu medrau cyfathrebu. Mae bron pob un o'r plant yn mynegi eu hunain yn glir gan ddefnyddio geiriau a brawddegau syml. Er enghraifft, maent yn esbonio sut i dynnu llun â chamera. Mae bron pob un o'r plant yn ymuno â chaneuon yn ystod amser cerddoriaeth grŵp cyfan ac yn awgrymu newid y geiriau mewn rhigymau cyfarwydd. Mae llawer o blant yn defnyddio iaith briodol wrth chwarae ac archwilio, er enghraifft wrth ddisgrifio'r wenynen y maent wedi tynnu'i llun yn 'aneglur' ('fuzzy'). Mae bron pob un o'r plant yn gwrando'n dda ar storïau sy'n cael eu darllen gan oedolyn ac ar y chwaraeydd cryno ddisgiau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn mwynhau edrych ar lyfrau, yn troi tudalennau yn annibynnol, ac yn siarad am yr hyn a welant yn y lluniau. Mae'r rhan fwyaf o blant yn arbrofi'n gadarnhaol â chreu marciau gyda gwahanol gyfryngau fel pensiliau, paent a sialciau, er enghraifft i dynnu lluniau ohonyn nhw eu hunain a'u teulu.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau mathemategol yn dda. Maent yn defnyddio iaith 'byr' a 'tal' wrth adeiladu tŵr â blociau mawr. Mae bron pob un o'r plant yn gyfarwydd â threfn y sesiwn ac yn deall, pan fydd staff amser cinio'n cyrraedd, fod amser cinio yn agos. Mae bron pob un o'r plant yn ymuno wrth ganu

rhigymau rhif, fel ‘Five little spacemen’. Mae mwyafrif o blant yn dechrau adnabod patrymau o’u cwmpas, fel streipiau ar eu dillad. Mae’r rhan fwyaf o blant yn dewis ac yn defnyddio syniadau, offer a deunyddiau mathemategol priodol i ddatrys problemau ymarferol. Er enghraifft, maent yn dewis silindr mesur bach i dywallt dŵr o’r pot mawr.

Mae pob un o’r plant yn canu caneuon Cymraeg yn frwdfrydig yn ystod amser grŵp cyfan ac yn dechrau ailadrodd geiriau syml. Er enghraifft, maent yn copïo’r oedolyn ac yn dweud ‘broga’ wrth chwarae gyda’r brogaod.

Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o blant yn datblygu’n dda. Maent yn defnyddio pensiliau, toes chwarae, offer a siswrn yn fedrus yn eu dysgu, gan ddangos medrau echddygol manwl da. Mae llawer o blant yn egnïol wrth iddynt chwarae. Er enghraifft, maent yn rhedeg ac yn defnyddio teganau ag olwynion yn yr awyr agored. Mae llawer o blant yn defnyddio’u dychymyg yn dda, er enghraifft pan fyddant yn adeiladu tŷ yn yr awyr agored gyda chratiau.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) effeithiol ac yn eu defnyddio’n werthfawr wrth iddynt chwarae. Er enghraifft, mae llawer o blant yn tynnu lluniau’n annibynnol gan ddefnyddio camera, a gallant adalw’r ddelwedd.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau personol yn dda, fel gwisgo ffedog cyn peintio a welintons i fynd y tu allan. Mae llawer o blant yn datblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol effeithiol ac yn cydweithredu’n dda â’i gilydd wrth iddynt chwarae.

Mae mwyafrif o blant yn dangos dyfalbarhad a gwydnwch. Er enghraifft, pan fyddant yn adeiladu castell tywod ac yn addurno â ffyn o wahanol feintiau, maent yn darganfod bod rhai ffyn yn rhy drwm ac mae eu castell tywod yn cwympo.

**Gofal a datblygiad:  Da**

Mae ymarferwyr yn cefnogi iechyd a lles plant yn effeithiol. Maent yn mynychu ystod o gyrsiau ac yn dilyn arfer dda yn ymwneud â diogelu plant. Maent yn gwybod beth i’w wneud os bydd ganddynt bryderon am blentyn. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn golchi’u dwylo ar adegau priodol. Fodd bynnag, nid oes angen atgoffa’r rhan fwyaf ohonynt. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod dŵr ar gael gan fod plant yn dod â’u byrbrydau a’u cinio pecyn eu hunain. Mae cofnodion plant fel eu manylion unigol yn gwbl gyflawn, gan gynnwys anghenion gofal iechyd. Mae ymarferwyr yn llenwi cofrestr sy’n rhoi manylion am bresenoldeb, a nodir mân anafiadau, gan dynnu sylw rhieni a gofalwyr atynt yn briodol.

Mae ymarferwyr yn sensitif a meddylgar. Maent yn bwyllog a thyner gyda’r plant. Mae ymarferwyr yn amyneddgar ac yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad yn effeithiol bob amser. O ganlyniad, maent yn cynorthwyo plant ac yn diwallu eu hanghenion unigol yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio canmoliaeth yn dda. Er enghraifft, maent yn canmol y plant am ddatrys problemau’n dda, sy’n annog y plant i ddyfalbarhau’n hirach â’u tasg.

Mae gan ymarferwyr berthnasoedd cadarnhaol â rhieni. Maent yn caniatáu digonedd o amser ar ddechrau a diwedd y sesiwn i siarad â rhieni a diweddaru unrhyw wybodaeth am y plant. Maent yn addasu’r ddarpariaeth i ymateb yn effeithiol i anghenion unigol y plant. Er enghraifft, nid oedd plentyn eisiau mynd y tu allan, felly arhosodd ymarferwyr y tu mewn, a chwaraeon nhw ar y cyd, gan wneud i’r plentyn ymlacio a theimlo’n hapus iawn. Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn darparu lefel eithriadol o dda o ofal ar eu cyfer. Maent yn gwybod yn reddfol pryd i sefyll yn ôl a gadael i’r plant ddarganfod ar eu pen eu hunain, a phryd i ymyrryd â moment addysgu, fel dangos i blant sut mae plu’r ieir yn llyfn. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad plant yn dda, yn aml gan ddefnyddio hiwmor da a jôcs er llawenydd i’r plant.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae’r ddarpariaeth i gefnogi medrau llythrennedd a rhifedd plant yn effeithiol. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn datblygu gwybodaeth am rigymau rhif pan fyddant yn eu hannog i ganu '5 little spacemen' ar y llwyfan awyr agored. Mae ymarferwyr yn darparu ystod eang o brofiadau, fel creu cestyll tywod o wahanol feintiau yn y pwll tywod a defnyddio sialciau ar y bwrdd du mawr. Mae’r gweithgareddau hyn yn datblygu ymwybyddiaeth plant o faint a’u medrau creu marciau yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn ystyried profiadau anarferol, er enghraifft pan fyddant yn annog plant i ragweld ble mae’r awyren y maent yn sylwi arno yn yr awyr agored yn debygol o fod yn mynd.

Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau diddorol a gwerthfawr sy’n cwmpasu’r holl feysydd dysgu yn effeithiol dros gyfnod. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ddefnyddio deunyddiau wedi’u hailgylchu i greu cwrs rhwystrau y tu allan. Mae hyn yn effeithio’n dda ar ddatblygiad corfforol plant wrth iddynt ddefnyddio hwn i falansio a theithio ar ei draws.

Mae gan bob ymarferwr ddealltwriaeth dda o sut mae plant yn dysgu chwarae ac yn magu hyder o ran gweithredu gofynion y Cwricwlwm i Gymru. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o’r adnoddau dan do ac yn yr awyr agored i gefnogi dysgu, ac fe gaiff blant fynediad di-dor i’r awyr agored trwy gydol y sesiwn. O ganlyniad, mae bron pob un o’r plant yn cynnal diddordeb yn eu chwarae am gyfnodau amser sylweddol. Mae ymarferwyr yn modelu gweithgareddau’n dda, gan chwarae ochr yn ochr â’r plant yng ngwahanol ardaloedd y ddarpariaeth. Maent yn cefnogi datblygiad llafaredd plant yn bwrpasol trwy ofyn cwestiynau treiddgar a modelu geirfa. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn gofyn i’r plant ddisgrifio’r hyn y maent wedi’i greu yn yr ardal gelf.

Mae ymarferwyr yn defnyddio caneuon a storïau yn Gymraeg yn ystod gweithgareddau grŵp cyfan. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio’r Gymraeg yn gyson trwy gydol y sesiwn. Caiff plant gyfleoedd addas i ddysgu am eu treftadaeth Gymreig. Er enghraifft, maent yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi ac yn creu cennin Pedr.

Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau y tu hwnt i’r lleoliad i ymestyn profiadau dysgu’r plant. Er enghraifft, mae’r plant wedi mwynhau ymweliadau â’r parc cyfagos, ac o ganlyniad, maent yn hyderus i redeg, dringo a

balansio. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant ddysgu am y byd naturiol o'u cwmpas. Er enghraifft, maent yn ymweld â chwt ieir yr ysgol, ac yn annog plant i stompio i mewn a chasglu dail a chreu marciau yn yr eira. Fodd bynnag, ychydig iawn o gyfleoedd a roddir iddynt dyfu planhigion, a gofalu amdanynt. Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu priodol sy'n hyrwyddo datblygiad moesol, ysbrydol a diwylliannol plant yn dda. Er enghraifft, maent yn meithrin ymdeimlad o barchedig ofn a rhyfeddod wrth chwilio am greaduriaid bach a dod o hyd i afalau sy'n tyfu ar y coed.

Mae gan y lleoliad ystod o weithdrefnau asesu defnyddiol. Mae ymarferwyr yn arsylwi ac yn nodi'r hyn y mae plant yn gallu ei wneud yn ystod eu hwythnosau cyntaf yn y lleoliad. Maent yn cofnodi arsylwadau gwerthfawr i ddangos cynnydd plant, sy'n cael eu rhannu â rhieni. Mae ymarferwyr yn defnyddio asesiadau'n effeithiol i lywio profiadau yn y dyfodol a chefnogi camau nesaf y plentyn mewn dysgu.

## Yr amgylchedd:  Da

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ar gyfer y plant. Er enghraifft, mae'r adeilad yn ddiogel ac fe gaiff plant eu goruchwylio'n dda. Mae asesiadau risg yn nodi unrhyw beryglon posibl yn effeithiol ac yn cadw plant yn ddiogel, er enghraifft pan fyddant yn ymweld â'r siop leol. Mae amserlen lanhau a sylw da i reoli heintiau yn golygu bod y lleoliad yn eithriadol o lân, ac mae arweinwyr yn sicrhau lefel ragorol o hylendid bob dydd. Caiff driliau tân rheolaidd eu cynnal a'u cofnodi, sy'n dangos bod arweinwyr ac ymarferwyr yn ymwybodol o sut i adael yr adeilad a chadw'r plant yn ddiogel mewn argyfwng.

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd dysgu effeithiol gyda digonedd o le i symud o gwmpas. Caiff gwaith plant ei arddangos ar un wal i roi ymdeimlad iddynt o gyflawniad a pherthyn. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y lleoliad yn cael ei drefnu i ddarparu cymuned gwbl gynhwysol lle caiff yr holl blant gyfle cyfartal i gymryd rhan mewn gweithgareddau a manteisio ar feysydd y ddarpariaeth. Mae arweinwyr yn gwneud yn siŵr fod plant yn derbyn gofal da mewn amgylchedd dysgu hynod gefnogol a hamddenol, sy'n ystyried diddordebau plant a'u hanghenion unigol yn dda.

Adlewyrchir cymuned amrywiol yn briodol gan ffigurau tegan, storïau a llyfrau. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol i gadw diddordebau plant a chynnal amgylchedd clir yn hynod effeithiol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Da

Mae arweinwyr yn rhannu gweledigaeth glir i'r lleoliad ddarparu amgylchedd i blant gael hwyl a gwneud ffrindiau. Mae datganiad o ddiben y lleoliad yn darparu darlun cywir o'r lleoliad a cheir ystod o bolisïau, gweithdrefnau ac asesiadau risg defnyddiol, sy'n cael eu cymhwyso'n effeithiol yn ymarferol.

Mae gan y pwyllgor rheoli ddealltwriaeth resymol o'u cyfrifoldebau. Fodd bynnag, nid ydynt yn cefnogi ac yn herio'r ymarferwyr yn ddigonol eto. At ei gilydd, mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o ymarferwyr ac adnoddau i gefnogi lles, dysgu a chwarae'r plant. Mae pob un o'r ymarferwyr yn meddu ar gymwysterau da, ac mae ganddynt

swydd-ddisgrifiadau priodol, gan sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'u rôl yn y lleoliad. Ceir ymrwymiad cryf i waith tîm. Mae gan y lleoliad brosesau diogel a phriodol ar gyfer recriwtio a defnyddio ymarferwyr.

Mae prosesau hunanwerthuso'r lleoliad yn addas. Mae'r ymarferwyr wedi nodi cryfderau a meysydd defnyddiol i'w datblygu, fel gwella cyfleoedd corfforol plant yn yr awyr agored. Maent yn dechrau cynnwys rhanddeiliaid yn y broses, fel athro ymgynghorol yr awdurdod lleol a rhieni.

Mae bron pob un o'r ymarferwyr wedi ymgymryd â chyfleoedd hyfforddi gwerthfawr, fel cynllunio ymatebol i ymestyn dysgu'r plant. Mae'r ymarferwyr yn gwerthfawrogi'r cymorth gan athro ymgynghorol yr awdurdod lleol, fel datblygu'r amgylchedd a threfniadau asesu newydd. Gwneir defnydd effeithiol o grantiau sydd ar gael. Er enghraifft, mae arweinwyr wedi blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau gwella'r lleoliad yn dda. O ganlyniad, caiff plant ystod eang o brofiadau pwrpasol yn yr awyr agored.

Mae ymarferwyr yn meithrin cysylltiadau cryf â rhieni ac yn rhannu gwybodaeth gyda nhw yn bwrpasol. Mae rhieni a gofalwyr yn teimlo bod croeso iddynt yn y lleoliad ac yn gwerthfawrogi'r drefn o gyfnewid gwybodaeth a gânt am eu plentyn yn rheolaidd trwy gyswllt o ddydd i ddydd, a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol. Ceir cysylltiadau buddiol â'r ysgol, sy'n cefnogi cyfnod pontio plant i'r cam nesaf yn eu haddysg.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/08/2023

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/08/2023

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  23/08/2023

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| Rhagorol | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| Da | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| Digonol | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| Gwael | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/08/2023

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 23 Awst 2023

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/08/2023